CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR EBRILL 3 2007

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng I Thomas

Cynghorwyr
M P Jones, W T Owen, R Anderson, H Edwards, H W Roberts, R M Jones, O T Owen, A W Bohana, W R Owen, A Kirk, M E Williams, T Thomas, G Parry

Gweddïau
Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Cyng. H Edwards

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng. A Y Williams, Cyng. H Gwyn

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

- Cyfarfod i drafod hyrwyddo busnesau Caernarfon a grantiau gyda'r clerc a swyddogion Gwynedd.
- Agor Siop Cymdeithas Prydeinig Y Galon – yn Stryd Llyn
- Cyfarfod gyda'r heddlu gyda cynrychiolwyr o cynghorau Bangor a Pwllheli (cofnodion yn yr agenda)
- Lansio gwobrau busnes Gwynedd
- Diolch i'r clerc a Cyng. M E Williams am fynychu Cinio Elusennol Maer Dinbych
- Noson hyrwyddo'r Gymraeg a drefnwyd gan Bwrdd yr Iaith a sefydliad Marchnata Siartredig
- Cinio Maer & Maeres Caer
- Diolch i'r Dirprwy, Clerc a Cyng. M Williams am fynychu cyngerdd elusennol Biwmares yn fy absenoldeb
- Amgylchedd o Ansawdd – codi balchder trwy gyfrwng blodau
- Nodi dechrau'r gwaith ar Ganolfan Llysoedd Caernarfon ar safle Ysgol Segontium ac agoriad Caer gylchu

- Ymweld a Ysgol Maesincla i gyfarfod y disgyblion a fo'n gyfrifol am y dillad chwarae
- Band Bangor Slaters yng Nghaernarfon yfory
- Nodi marwolaeth Ivor Wynne Jones, newyddiadurwr a cholofnydd yn y Daily Post. Brodor o Gaernarfon wedi cael ei addysg yn y Dre. Newyddiadurwr yn y dre oedd yn arfer mynychu cyfarfodydd yma. Barn pendant ,er nad oeddwn i yn cytuno gyda ef yn arferol, ond rhaid parchu barn pawb, ac mae cyfrannu i brif Bapur newydd Gogledd Cymru am dros 50 mlynedd yn dipyn o yrfa i newyddiadurwr. Safodd pawb am funud o dawelwch.

Wedi bod yn weld Cyng. E D Williams gyda'r clerc gan ddymuno gwellhad buan iddo ar ran Y Cyngor

3. Datgan Buddiant Personol

Cyng. H Edwards – Cynllunio a cais ariannol Grŵp Cymunedol Maesincla
Cyng. R M Jones – Cynllunio
Cyng. G Parry – cynllunio
Cyng. W R Owen – Cynllunio
Cyng. H W Roberts – Cais ariannol Grŵp Cymunedol Maesincla
Cyng. I Thomas – Cais Ariannol 12
Cyng. R Anderson – Cais cynllunio rhif 1

4. Eitemau Brys

Senedd 04
Bont Aber
Galeri – Cath Wyllt
Pobl Peblig
Cais Ariannol Grŵp Cymunedol Maesincla
Costau archwilio "points" goleuadau Nadolig
Rhaglen waith Cyngor Gwynedd
Cofnodion Panel Cyllid a staff – cyfrinachol

5.Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 6 Mawrth 2007
ii. Pwyllgor Cyffredinol 20 Mawrth
iii. Panel Cyllid a Staff 19 Mawrth 2007

Penderfynwyd
I dderbyn cynnwys y cofnodion gyda un newid yn cofnodion Cyngor 6 Mawrth newid Mr Jim Davies i Dr Jim Davies.

6 **Ceisiadau Cynllunio**

I ystyried y ceisiadau
Penderfynwyd
I anfon rhestr argymhellion i'r Awdurdod perthnasol – cytunwyd cefnogi'r 3 cais – gweler dogfen amgaeedig.

7.Cyfrifon

I gymeradwyo biliau a dalwyd

Penderfynwyd
I dderyn cynnwys y biliau a'u talu

8.TCC

Cofnodion cyfarfod 12 Mawrth 2007

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth ,a gofyn am gyfrifon gan eu bod nhw yn sôn am gor wariant

9.Llythyr Selwyn Griffiths

Par: Swyddi Tŷ Moelwyn

Penderfynwyd
Peidio ysgrifennu tan ar ôl yr Etholiad Mis Mai

10.Llythyr Itala Foundation

Par: Nawdd

Penderfynwyd
Fod angen cwblhau ffurflen gais

11.Bwletin Arfon/Dwyfor

Oddiwrth Unllais

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

12.Cais Ariannol

Bedwen lyfrau

Penderfynwyd

Cyfrannu £100

13.Rhybudd o Gynnig

Cyng. I. C. Thomas

Penderfynwyd
I ail benodi Winston Roddick .Clerc i ofyn caniatad Y llysoedd .

14.Cwestiynau

Dim

15. Senedd 04

Par. Cynhadledd

Penderfynwyd
I unrhyw gynghorydd sydd yn dymuno fynd (hyd at 2) adael i'r clerc wybod

16. Bont Aber

Rhybudd bod y bont ar gau

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

17.Galeri – sioe cath wyllt

Tocynnau

Penderfynwyd
6 tocyn ar gael, pawb i adael i'r clerc wybod heno

18.Pobl Peblig

Diwrnod clirio Plas, angen gwirfoddolwyr

Penderfynwyd
Pawb sydd ar gael i adael i'r clerc wybod mor fuan a sydd posibl

19.Cais Ariannol – Grŵp cymunedol Maesincla

Penderfynwyd
Cyfrannu £100

20Costau archwilio " points" goleuadau Nadolig

Penderfynwyd
Symud yr eitem i Bwyllgor Adloniant, clerc i drefnu dyddiad yn fuan gyda'r cadeirydd

21.Rhaglen Waith – Cyngor Gwynedd

Penderfynwyd
Adran 1- Cynllun y Maes – Cyng. T Thomas i gynrychioli
Adran 2 – Cynllun Arwyddo – Cyng. M P Jones i gynrychioli
Adran 4 – Cynllun Parcio a traffig – Cyng. A Bohana i gynrychioli
Adran 6 – Cynllun Marchnata – Cyng. H Edwards i gynrychioli

22.Cofnodion –Cyfrinachol Panel Cyllid a Staff

Gofynnwyd i'r wasg ar cyhoedd adael

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth
Clerc yn nodi bod cynnwys unrhyw ddogfennau a sgoriau, dal yn gyfrinachol ac mae dim ond y ffaith bod tendr wedi eu wobrwyo sydd yn rhydd i'r cyhoedd

Gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd ail ymuno

23. Costau llogi ystafelloedd

Yn dilyn y Panel Cyllid 19.3.2007 gofynnwyd i'r clerc greu taflen costau newydd. Dangosodd y clerc y ddogfen newydd a
Penderfynwyd
Derbyn ei gynnwys a bod y taliadau newydd yn dod yn weithredol ar 1 Mai 2007

Gorffennodd y cyfarfod am 7.25

Arwyddwyd ..... Dyddiad.....